COFNODION CYFARFOD O GYNGOR CYMUNED LLANENGAN a gynhaliwyd nos Fercher, Tachwedd 9fed, 2016 am saith o'r gloch

PRESENNOL

John Gwilym Jones (Cadeirydd), Thelma Cordingley, John E. Griffiths, Wyn Griffiths, Gwilym Hughes, Robert M. Jones, Dylan Llwyd (cyrhaeddodd 8:10 o'r gloch pan drafodwyd Pwynt x) Materion yn Codi), Catherine Ll. Morris, O. Hefin Roberts, William B. Williams, Cyng. R.H. Wyn Williams (Cyngor Gwynedd) ac aelod o'r cyhoedd

YMDDIHEURIADAU

Alun Jones (Is-gadeirydd), R. Phillip Roberts, Cyng. John B. Hughes (Cyngor Gwynedd)

ABSENNOL

Erfyl W. Roberts

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, gan gynnwys yr aelod o'r cyhoedd.

1. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd y Cynghorwyr John Gwilym Jones, William B. Williams a Catherine Ll. Morris fuddiant yn 2. Ceisiadau Cynllunio: C16/1272/39/LL – Ymestyn safle carafannau sefydlog er mwyn ail-leoli pedair (4) uned ychwanegol, gan gynyddu'r niferoedd o 32 i 36 – Fferm Tŷ Newydd, Sarn Bach oherwydd bod y ddau gyntaf yn berchnogion meysydd carafannau a'r olaf yn berthynas teuluol.

2. **CADARNHAU COFNODION**

Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar Hydref 12fed a 26ain, 2016 yn gywir.

3. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn:

C16/1272/39/LL Ymestyn safle carafannau sefydlog er mwyn ail-leoli pedair (4) uned ychwanegol, gan gynyddu'r niferoedd o 32 i 36 – Fferm Tŷ Newydd, Sarn Bach **– Cefnogir**

[Cymerodd Cyng. Robert M. Jones y gadair yn absenoldeb yr Is-gadeirydd a chan y datganodd y Cadeirydd a'r Cyn-gadeirydd ddiddordeb.]

C16/1316/39/LL Codi uchder to'r tŷ fedr (1m) er mwyn medru addasu'r gofod to ac estyniad unllawr cefn – Erwenni, Yr Harbwr, Aber-soch **– Cefnogir**

C16/1336/39/LL	Tŷ newydd dwy lofft a gwaith cysylltiedig – Anhywel**,** Lôn Pont Morgan, Aber-soch **– Gwrthwynebir oherwydd gorddatblygiad ar safle cyfyng ac amlwg, ynghyd â phryder am fynediad i briffordd brysur. Derbyniwyd copi o lythyrau gwrthwynebu cymdogion er gwybodaeth. (Gadawodd yr aelod o'r cyhoedd ar ôl trafod y cais hwn.)**
C16/1346/39/LL	Cyfnewid ac ymestyn balconi – 224 Cae Du, Aber-soch **– Cefnogir**
C16/1375/39/LL	Sied amaethyddol ar gyfer anifeiliaid – Bodwi, Mynytho **– Cefnogir**

4. **MATERION YN CODI**

a) **Toiledau Cyhoeddus Tyddyn Callod, Aber-soch**
Derbyniwyd pris o £330.00 + TAW oddi wrth CS Aluminium, sef cost galwad ymweld ac unrhyw ddarn a fyddai ei angen i atgyweirio'r drws. Cafwyd sgwrs â Swyddog Safonau Masnach a ddywedodd nad yw busnes yn dod dan y Ddeddf Defnyddwyr fel ag i gwsmer ond, buasai'n fodlon cynghori unrhyw bryd. Trefnwyd cyfarfod â'r contractwr bore ddoe i drafod y mater ond, adroddodd WBW y datrysodd y broblem – o edrych ar y clo'n iawn, sylwodd fod rhywun wedi gwthio hanner pric hufen iâ tu ôl i'r clicied ac mai dyna'r rheswm pam nad oedd yn gweithio'n iawn; diolchwyd iddo am ei drafferth. Penderfynwyd cysylltu â chyfreithiwr y Cyngor eto i ofyn am ei gyngor.

b) **Glanhau Afon Soch**
Ni dderbyniwyd cydnabyddiaeth i'r sylwadau a anfonwyd.

c) **Cheshire Lamont – Gwesty'r Harbwr/Llwybr Estyllog at lan Afon Soch**

i) ***Enw Datblygiad Tai Gwesty'r Harbwr*** – E-bost cydnabod derbyn neges a dderbyniwyd oddi wrth y datblygwr parthed yr enw. Deallwyd mai 'Harbour View' a dderbyniodd gweithwyr gosod gwasanaethau fel cyfeiriad yn ddiweddar. Awgrymwyd holi Swyddfa Ddidoli'r Post ym Mhwllheli.

ii) ***Llwybr Estyllog*** – Derbyniwyd pris terfynol y profion oddi wrth Celtest – £1616.00 + TAW a £26.00 y dydd – a fyddai wedi cynyddu'r gwariant heb ddim i'w ddangos amdano dros chwe mil o bunnoedd. Hysbyswyd Datrys na fwriedir parhau â'r cynllun ac ni dderbyniwyd ymateb dim ond cydnabod derbyn y neges.

ch) **Archwiliad Cyfrifon 2015 – 2016**
Cynhaliwyd cyfarfod arbennig i gymeradwyo'r ffurflen ac fe'i derbyniwyd – gweler cofnodion Hydref 26ain.

d) **Graddfeydd Cyflogau Clercod 2016 – 2018**
Gadawodd y Clerc yn ystod y drafodaeth hon. Penderfynodd yr Is-bwyllgor gynnig awr ychwanegol at ei chytundeb presennol, ynghyd â chodi ei chyflog,

yn unol â'r uchod ac fe'i ôl-ddyddir i Ebrill 1af. Trafodir cynllun pensiwn, yn unol â'r rheoliadau newydd mewn cyfarfod arall o'r Is-bwyllgor.

dd) **Henry Jones (Cricieth) Ltd. – Mynwent y Bwlch**

- Trefnwyd cyfarfod i ddiwygio a diweddaru Rheolau'r Fynwent nos Fawrth, Tachwedd 22ain am saith o'r gloch. Anfonir copi o'r rheolau, gan gynnwys rhai Cynghorau Cymuned Aberdaron a Llanbedrog er gwybodaeth, at aelodau'r Is-bwyllgor (Cadeirydd, Is-gadeirydd, GH, WBW ac EWR) cyn y cyfarfod.
- Ni dderbyniwyd ymateb oddi wrth yr ymgymerwr/torrwr beddi yn dilyn anfon llythyr ato, ynghyd ag amgáu copïau o'r cwynion a dderbyniwyd. O ganlyniad, nis ymatebwyd i'r cwynwyr.

e) **Ceisiadau Cynllunio – C16/0629/39/LL – Diddymu Amodau 3 a 4 o Ganiatâd Cynllunio C13/0594/39/LL er mwyn defnyddio uned wyliau bresennol fel tŷ annedd – Tafliad Carreg, Llysfor, Aber-soch**
Ni dderbyniwyd ateb oddi wrth yr Adran Gynllunio yn dilyn gofyn am eglurhad pam y caniatawyd yr uchod; anfonir llythyr yn hytrach nag e-bost.

f) **Cyng. Wyn Williams – Cae Chwarae Aber-soch**
Ni dderbyniodd brisiau na mwy o wybodaeth am osod yr *astroturf* ond, bwriedir mesur y safle gan fesurwr profiadol i'w cael yn hollol gywir. Derbyniwyd llythyr oddi wrth Wicksteed Ltd. yn hysbysu ei bod yn amser cynnal prawf iechyd a diogelwch i'r ddau gae chwarae – fe'i harchebir.

ff) **Clorian Cymru – Teledu Cylch Cyfyng**
Cwblhawyd y gwaith yn Nhalafon a gosodir system o'r newydd yn y toiledau fory; derbyniwyd yr anfonebau – gweler 12. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod.

g) **8. Gohebiaeth b) Llywodraeth Cymru –** iii) ***Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2017 – 2018 – Adroddiad Blynyddol Drafft***
Ymgynghoriad – angen sylwadau erbyn Tachwedd 28ain. Mabwysiadwyd Polisi Rheolau Lwfansau i gyd-fynd â'r Adroddiad.

5. **MATERION CYNLLUNIO**

a) **Mynedfa Newydd Castell, Lôn Pont Morgan, Aber-soch**
Addawodd y perchennog anfon cais cynllunio tystysgrif cyfreithloni ar gyfer cadw'r fynedfa erbyn mis Rhagfyr.

6. **MATERION PRIFFYRDD**

a) **Materion Cynnal a Chadw yn y Gymuned**

i) ***Mainc Sarn Bach*** – gofynnwyd i gontractwr y llwybrau wneud y gwaith, ond heb wneud. Ychwanegwyd bod angen paentio mainc

Bwlchtocyn hefyd – penderfynwyd â phaentwyr lleol i ofyn am amcanbris.

ii) ***Coed ger Ysgubor Wen*** – mynegwyd pryder am y rhain, gan fod cerddwyr yn gorfod camu allan i'r ffordd mewn man di-balmant peryglus ar y gorau; cysylltir â'r Adran.

b) **Parth 20 m.y.a. ar Lôn Gwydryn, Aber-soch**
Anfonwyd llythyr cefnogi i'r Adran Drafnidiaeth ac ychwanegwyd pe bai Ysgolion Foel Gron a Sarn Bach yn dymuno creu parth y cefnogid hwy hefyd. Cyhoeddwyd enillwyr dylunio'r poster yr wythnos diwethaf a gobeithir y bydd yr arwyddion yn eu lle at y Nadolig.

7. **MATERION HAWLIAU TRAMWY – LLWYBRAU CYHOEDDUS**

Derbyniwyd ateb oddi wrth Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy, parthed yr isod:

a) ***Llwybr 18 – Mynydd Cilan i Garreg Lwyd***
Hysbyswyd y trigolyn lleol, a holodd a fyddai modd ei ailagor, o'r penderfyniad ac atebodd drwy ofyn a fyddai ganddi hawl i'w ddefnyddio o hyd – dywedwyd y câi.

b) ***Ffens ger Isfryn, Mynytho***
Mae angen edrych trwy'r hen ffeil llwybrau cyhoeddus.

c) ***Torri'r Llwybrau***
Ni chafodd DWO gyfle i ymateb i'r ohebiaeth a anfonwyd ato, gan mai newydd eu hanfon mae'r Clerc.

ch) ***Giât Fochyn yn Riffli (Llwybr 12)***
Buasai'n rhaid cael caniatâd y perchennog tir oherwydd y byddai'n welliant ar lwybr – gofyn am gadarnhad o hyn.

d) ***Llwybr y Morwyr – Nefyn i Aber-soch***
Cynhelir cyfarfod yn Y Fach am 10.30 o'r gloch bore fory – y Clerc am ei fynychu.

8. **GOHEBIAETH**

a) **Un Llais Cymru (ULlC)**

i) ***Ymgynghoriad Adroddiad Blynyddol ULlC***
Copi o'r uchod er gwybodaeth.

ii) ***Hyfforddiant Tachwedd a Rhagfyr***
Rhestr o'r sesiynau hyfforddi a gynigir.

iii) ***Ysgrifennydd Cabinet yn cynnig datblygiadau cadarnhaol iawn ar gyfer y sector Cynghorau Cymuned a Thref yng Nghymru***

Copi o brif bwyntiau anerchiad Mark Drakeford, AC, Ysgrifennydd Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, yng nghynhadledd blynyddol ULlC.

iv) ***Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru***
Ymgynghoriad ar yr uchod a ddaw i ben Ionawr 9fed, 2017.

v) ***Gwasanaethau Ymgynghoriaeth 2016***
Rhestr o'r uchod a ddarperir i aelod gynghorau a ddarperir gan bobl broffesiynol cymwysedig trwy gyfrwng y Saesneg.

vi) ***Newyddion Diweddaraf***
Copi o rifyn cyntaf bwletin newyddion ULlC.

vii) ***Holiadur Strydoedd sy'n Gyfeillgar i Oed – Pa mor hawdd yw cerdded yn eich cymdogaeth chi?***
Copi o'r uchod oddi wrth Heneiddio'n Dda yng Nghymru mewn partneriaeth â Living Streets a'r Ganolfan Ymchwil Heneiddio â Dementia; bodlonodd Cyng. Wyn Williams ei lenwi.

b) **Llywodraeth Cymru**

i) ***Ymgynghoriad Diwygio'r Ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Dreth Gyngor i adlewyrchu'r premiymau a gyflwynir ar gartrefi gwag tymor hir ac ail gartrefi***
Angen sylwadau erbyn Rhagfyr 1af.

c) **Banc Bwyd Pwllheli**
Cais am lythyr i gefnogi cais y trefnyddion am nawdd ar gyfer gwella ac ailddatblygu ochr orllewinol Eglwys Sant Pedr, Pwllheli, ar gyfer y Banc Bwyd; penderfynwyd ei gefnogi.

ch) **Clwb Moduro Harlech a'r Cylch – Rali Goffa James Trenholme**
Llythyr, er gwybodaeth, yn hysbysu y cynhelir yr uchod Tachwedd 12fed – 13eg.

d) **Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru – Siawns i Ddeud eich Deud am Blismona**
Ymgynghoriad ar y blaenoriaethau plismona – darparu gwasanaethau plismona ar gyfer Gogledd Cymru i gyd; angen sylwadau erbyn Rhagfyr 16eg.

dd) **Gwasanaeth Trafnidiaeth – Cynllun Arfaethedig i gyflwyno cyfyngiadau parcio yn ardal Dwyfor, sef Abererch, Aber-soch, Beddgelert, Borth y Gest, Cricieth, Llanbedrog, Morfa Nefyn, Nefyn, Penygwryd, Porthmadog, Pwllheli a Threfor**
Ystyrir cyflwyno cyfyngiadau parcio ar y ffordd o flaen modurdy T. a G. Williams – llinellau melyn dwbl; ymestyn 'Dim Aros ar Unrhyw Adeg Mehefin 1af – Fedi 15fed' ar Lôn Rhoslyn a llinellau melyn dwbl i lawr ffordd Machros i'r traeth; penderfynwyd derbyn y cyfyngiadau.

e) **Adran Rheoleiddio – Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 – Apêl dan Adran 78(i) – Diddymu Cytundeb 106 Angen Fforddiadwy – Ocean Crossing, Bwlchtocyn**
Llythyr yn hysbysu y cynhelir yr apêl uchod yng Nghanolfan Frondeg, Pwllheli, ddydd Mercher, Tachwedd 16eg am ddeg o'r gloch.

f) **Gwasanaeth Trethi – Gwerth Ardrethol Drafft**
Llythyr yn hysbysu y cwblhaodd Asiantaeth y Swyddfa Brisio yr ymarfer ailbrisiad eiddo busnes yng Nghymru a bod gwerth ardrethol drafft toiledau Lôn Traeth ar gael ar-lein. Ni lwyddwyd cael hyd iddo hyd yma – mae ychydig o broblem â'r union gôd post; gellir apelio cyn Tachwedd 30ain.

ff) **Cymdeithas Clercod (SLCC) – Arolwg Mynwentydd**
Arolwg o brinder beddi newydd – ymatebir iddo.

g) **Asesiad Llesiant Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn – Eich Ardal Chi – Beth sy'n Bwysig?**
Sefydlwyd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer pob un o'r 22 ardal awdurdod lleol Cymru ac maent yn gyfrifol am sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gweithio â'i gilydd i greu gwell dyfodol i bobl Cymru, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru a ddaeth i rym ar Ebrill 1af eleni. Diben y ddeddf yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. O ganlyniad i sefydlu Bwrdd Gwasanaeth Gwynedd a Môn, a weithia â'i gilydd mewn partneriaeth sy'n cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus er mwyn i drigolion ddarganfod beth sy'n bwysig i bobl o fewn eu cymunedau a beth hoffent ei wella at y dyfodol. Cynhelir cyfarfod yn Neuadd Aber-soch bnawn Llun, Tachwedd 21ain rhwng dau a phedwar o'r gloch.

ng) '**Call hefo'r Geiniog'**
Hysbyseb digwyddiad, fel rhan o'r gwaith Cynhwysiad Ariannol a wneir drwy'r prosiect Cydymdrechu yn Erbyn Tlodi, a gynhelir ddydd Mercher, Tachwedd 16eg rhwng 10.30 a 1.30 o'r gloch yng Nghapel y Drindod, Pwllheli.

9. **RHEOLIADAU ARIANNOL/SEFYDLOG, ASESU RISG AC ADOLYGU POLISÏAU**

Dangosodd y Clerc daenlenni ariannol a 'fenthycodd' oddi wrth ffrind – fe'i haddasodd ar gyfer y Cyngor, ond mae angen dod i arfer â hwy, yn arbennig yr un cysoni a llif arian. Bydd angen creu cofrestr o asedau'r Cyngor.

10. **DYFARNIADAU CYNLLUNIO AC YMHOLIADAU CYN CYFLWYNO CAIS**

C16/0242/39/LL	Estyniadau ochr a blaen, ynghyd â ffenestri gromen a tho – Gwyndy, Cilan **– Caniatawyd ag amodau**
C16/0734/39/TC	Defnyddio tir fel safle carafannau teithiol ar gyfer lleoli naw carafán rhwng Mawrth 1af a Hydref 31ain at bwrpas gwyliau –

	Bryn Bach Camp Site, Bwlchtocyn – **Caniatawyd Tystysgrif Cyfreithloni'n unig**
C16/0735/39/TC	Defnyddio tir ar gyfer lleoli hyd at 22 pabell ac wyth uned cymysg (pebyll a 'motor homes') rhwng Mawrth 1af a Hydref 31ain at bwrpas gwyliau a chadw wyth cysylltiad trydanol – Bryn Bach Camp Site, Bwlchtocyn – **Caniatawyd Tystysgrif Cyfreithloni'n unig**
C16/0875/39/LL	Dymchwel cwt glan y môr a chodi un newydd yn ei le – Cwt Glan Môr 28, Borth Fawr, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C16/0931/39/LL	Cais Diwygiedig – Adeiladu pwll nofio awyr agored, ystafell beiriannau i'r pwll nofio, ynghyd â strwythur cegin haf yn cynnwys popty pizza a bbq ag echdynnydd mecanyddol, terasau, tirlunio a ffens derfyn – Blaen y Wawr, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau**
C16/0980/39/LL	Estyniad unllawr blaen a chefn, codi to brig dros dro fflat cefn, balconi blaen ac addasiadau – Bron Heulog, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C16/0992/39/CC	Gwaith cynnal a chadw ar goed sy'n destun Gorchymyn Gwarchod Coed – Min y Don, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C16/0999/39/LL	Dymchwel tŷ annedd ac adeiladau allanol presennol a chodi tri tŷ newydd a gwaith cysylltiedig – Glenville, Aber-soch – **Gwrthod**
C16/1033/39/LL	Adeiladu sied amaethyddol newydd yn cynnwys storfa slyri integrol – Bodwi, Mynytho – **Caniatawyd yn ddi-amodol**
C16/1037/39/LL	Adeiladu balconi i'r cefn – 24 Tan y Gaer, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C16/1080/39/LL	Lolfa wydr unllawr i'r cefn – Dwyfor, Mynytho – **Caniatawyd ag amodau**
C16/1185/39/LL	Estyniad deulawr ar dalcen dwyreiniol y tŷ, ynghyd â newidiadau – 1 Bryn Llawen, Llanengan – **Gwrthod**
C16/1195/39/LL	Estyniad llawr cyntaf uwchben y modurdy a phorth gwydr cefn – Bron Gadair, Mynytho – **Caniatawyd ag amodau**

YMHOLIADAU CYN CYFLWYNO CAIS

C16/1045/39/YM	Ymestyn ffenestr fae a balconi llawr cyntaf – Nyth y Frân, Aber-soch
C16/1181/39/YM	Gosod canopi dros ardal fwyta allanol y bwyty – Zinc Café and Bar, Lôn Pen Cei, Aber-soch
C16/1107/39/YM	Dymchwel modurdy presennol a chodi un newydd – Eagle House, Sarn Bach
C16/1345/39/YM	Ffenestri newydd a phorth – Gwêl yr Ynys, Wellington, 2 Lôn Wilis, Mynytho

11. **CADARNHAU TALIADAU A DERBYNIADAU**

Taliadau

Cadarnhawyd talu cyflog mis Tachwedd y Clerc (Rh/S 002023), ynghyd â'r taliadau a ganlyn:

a) Cyngor Gwynedd – £439.45 (Rh/S 002022 – Gwagio Biniau Baw Cŵn mis Awst a Medi)
b) J.A. Pozzi – £1848.00 (Rh/S 002024 – Torri Gwellt Cae Chwarae Aber-soch)
c) Clorian Cymru – £1244.40 (Rh/S 002025 – Recordydd TCC newydd ar system Talafon a chyflenwi a gosod system newydd ar doiledau Lôn Traeth, Aber-soch)

Derbyniadau

a) Arian Mynediad y Toiledau – £26.41 (£5.90, £7.83, £9.41 a £3.27)
b) Cyngor Gwynedd – £3656.65 (Ad-daliad Torri Llwybrau)

12. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF**

Nos Fercher, Rhagfyr 14eg, 2016 am saith o'r gloch